

Adroddiad Blynnyddol Cyngor Tref Caerfyrddin
Blwyddyn Ddinesig 2022-23



*Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council*

**Carmarthen Town Council Annual Report
2022-23 Civic Year**

Adroddiad Blynnyddol Cyngor Tref Caerfyrddin

Blwyddyn Ddinesig 2022-23

Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynnyddol cyntaf o dymor y cyngor ar gyfer 2022-2027. Yn ystod y flwyddyn mae chwe chynghorydd newydd wedi ymuno â'r Cyngor Tref, pump ers etholiad Mai 2022 ac un wedi cyfethol ym mis Medi 2022. Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddioch i'r chwe chynghorydd a adawodd yn ystod 2021/22 am eu gwasanaeth i'r gymuned a'u cyfraniad i'r Cyngor Tref. Wnaethom hefyd ffarwelio â'n Clerc yn ystod 2022, fe wnaeth Mr Alun Harries ymddeol ar ôl saith mlynedd o wasanaeth a dymunwn yn dda iddo fe hefyd ar ei ymddeoliad.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un heriol arall i'r gymuned, yn bennaf oherwydd y codiadau ym mhrisiau ynni a'r argyfwng costau byw. Mae ein hymdrehigion i gefnogi'r gymuned yn ystod yr amseroedd hyn hyd yn oed yn bwysicach nag arfer. Gan ychwanegu at gryfder y perthnasoedd cymunedol a ddatblygwyd yn fwyaf diweddar yn ystod pandemig COVID-19, mae'r Cyngor Tref yn gweithio'n agosach gyda phartneriaid cymunedol a Chyngor Sir Caerfyrddin i wella ansawdd bywyd trigolion Caerfyrddin.

Roedd ffocws y Cyngor yn ystod 2022/23 ar gefnogi'r gymuned i ymdopi â'r pwysau a wynebwyd oherwydd yr argyfwng costau byw a'r adferiad parhaus o bandemig Covid-19. Fe arweiniodd Maer y Dref, y Cyng. Miriam Moules, fenter unigrwydd wrth weithio gyda phartneriaid lleol i greu gwell cysylltiadau yn y dref i gefnogi pobl unig a bregus. Daeth y gwaith i ben gyda diwrnod cyswllt cymunedol yn Neuadd Ddinesig San Pedr ym mis Hydref 2022, a greodd gysylltiadau rhwng grwpiau gwirfoddol a sefydliadau ac a roddodd groeso cynnes i'r cyhoedd. Fe barhawyd y croeso cynnes hwn yn ystod misoedd y gaeaf yn ein gofod cynnes ym Mhorthdy'r Parc, a daeth llawer o'r cyhoedd yno.

Cytunodd y Cyngor Tref ar strategaeth newydd yn ystod y flwyddyn ac ymgynghorwyd â'r cyhoedd i greu cynllun gweithredu pum mlynedd i weithredu'r strategaeth. Fe fydd hyn yn dod yn ffocws ar gyfer gweithredu yn y dyfodol a bydd cynnydd yn cael ei adrodd mewn adroddiadau blynnyddol yn y dyfodol.

Amlinelliad o'r Cyngor	<p>Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn gwasanaethu ardal Caerfyrddin a'i phoblogaeth o tua 14,000 o drigolion. May yna 18 o gynghorwyr, yn cynrychioli wardiau Gogledd, De a Gorllewin Caerfyrddin:</p> <p>Y Cynghorwyr Tref o Mai 2022 oedd:</p> <table border="0"> <tbody> <tr> <td>Miriam Moules (Maer a Chadeirydd)</td><td>Angharad Jones-Leefe</td></tr> <tr> <td>Wyn Thomas (Dirprwy Faer)</td><td>Andrew King</td></tr> <tr> <td>Emlyn Schiavone (Siryf)</td><td>Alun Lenny</td></tr> <tr> <td>Heledd ap Gwynfor</td><td>Arwel Lloyd</td></tr> <tr> <td>Parch. Tom Defis</td><td>Dr Ioan Matthews</td></tr> <tr> <td>Dai Evans</td><td>Russell Sparks</td></tr> <tr> <td>Peter Hughes Griffiths</td><td>Jeff Thomas</td></tr> <tr> <td>Dr Marc Ingram</td><td>Luned Voyle (cyfetholwyd Medi 2022)</td></tr> <tr> <td>Gareth John</td><td>Barry Williams</td></tr> </tbody> </table> <p>Caplan y Maer: Parch. Lorette Hinson</p> <p>Mae'r Cyngor Tref yn cyfarfod bob mis (ac eithrio mis Awst), ac fe'i cefnogir gan ddua brif Bwyllgor – y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a'r Pwyllgor Cyllid, sydd hefyd yn cyfarfod yn fisol ac yn adrodd ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ar ddiwedd pob mis. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd, pan fo angen.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cyflogi 19 aelod o staff llawn neu ran amser, a Chlerc y Cyngor Tref yw Emma Smith a awpyntiwyd yn ystod y flwyddyn yn dilyn ymddeoliad Mr Alun Harries.</p> <p>Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn gyfrifol ân nifer o wasanaethau yn y dref, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parc Caerfyrddin, gan gynnwys y siop de, y felodrom a'r cae rygbi • Parciau cyhoeddus eraill yng Nghaerfyrddin gan gynnwys Parc Tre Ioan, Parc Penllwyn, Parc Hinds yr ardaloedd chwarae yn Nheras Russell, Maes y Wennol ac Allt Ioan • Mwyafrif o lwybrau troed y dref • Neuadd Ddinesig San Pedr • Mynwent Caerfyrddin • Goleuadau troedffyrrd ar draws y dref 	Miriam Moules (Maer a Chadeirydd)	Angharad Jones-Leefe	Wyn Thomas (Dirprwy Faer)	Andrew King	Emlyn Schiavone (Siryf)	Alun Lenny	Heledd ap Gwynfor	Arwel Lloyd	Parch. Tom Defis	Dr Ioan Matthews	Dai Evans	Russell Sparks	Peter Hughes Griffiths	Jeff Thomas	Dr Marc Ingram	Luned Voyle (cyfetholwyd Medi 2022)	Gareth John	Barry Williams
Miriam Moules (Maer a Chadeirydd)	Angharad Jones-Leefe																		
Wyn Thomas (Dirprwy Faer)	Andrew King																		
Emlyn Schiavone (Siryf)	Alun Lenny																		
Heledd ap Gwynfor	Arwel Lloyd																		
Parch. Tom Defis	Dr Ioan Matthews																		
Dai Evans	Russell Sparks																		
Peter Hughes Griffiths	Jeff Thomas																		
Dr Marc Ingram	Luned Voyle (cyfetholwyd Medi 2022)																		
Gareth John	Barry Williams																		

	<ul style="list-style-type: none"> • Digwyddiadau a gweithgareddau yn cynnwys cynnau goleuadau Nadolig. Gwobrau Chwaraeon Tref Caerfyrddin, Rasys y Maer ar Wyll y Banc ym mis Mai, pared Sul y Cofio a dathliadau Gŵyl Dydd Dewi ynghanol y dref • Gweithgareddau a digwyddiadau a gynhaliwyd ym Mharc Caerfyrddin trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Rhaglen each o adloniant • Cynllun basgedi crog y dref ac arddangosfeydd blodau eraill • Darparu grantiau ariannol a chymorth arall i sefydliadau lleol ac achosion da. <p>Daeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith ym mis Ionawr 2021, ac mae gan lawer o ddarpariaethau'r Ddeddf oblygiadau i gynghorau tref a chymuned ledled Cymru. Rhoddwyd llawer o'r darpariaethau hyn ar waith yn ystod y flwyddyn flaenorol ond yn ystod 2022/23, mae Cyngor Tref Caerfyrddin wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu cynllun hyfforddi i gefnogi cyngorwyr a staff er mwyn iddynt gael yr hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu rôl. • Datgan ei fod yn gymwys o dan adran 31(1) o Ddeddf 2021 i fod yn gyngor cymwys i ddefnyddio'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (PCC) - mae'r pŵer cyfreithiol newydd hwn yn galluogi cynghorau lleol i fod yn fwy arloesol wrth ddefnyddio eu cyllid a'u hadnoddau.
Beth yw Gweledigaeth/Amcanion y Cyngor?	<p>Mabwysiadodd Cyngor Tref Caerfyrddin y strategaeth pum mlynedd ganlynol yn 2022:</p> <p>Strategaeth Creu Caerfyrddin sydd yn ffyniannus, hydwyth a chynaliadwy, gyda chymuned gynhwysol, ymgysylltiol a diwylliant bywiog.</p> <p>Amcanion y strategaeth:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Adeiladu Caerfyrddin ffyniannus lle mae pobl eisiau byw, dysgu, gweithio ac ymweld; 2. Creu Caerfyrddin hydwyth, ar gyfer cynhedaethau'r dyfodol yn y dref; 3. Gwella lles ein trigolion a chyfrannu at Gaerfyrddin iachach; Sicrhau diwylliant bywiog cyfoethog gyda llawer o gyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon; 4. Hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned drwy ein digwyddiadau a gweithio mewn partneriaeth ag eraill;

	<p>5. Hyrwyddo'r hyn yr ydym yn ei wneud a chyfleu ein digwyddiadau a'n gwasanaethau i cyrraedd y gymuned gyfan mor effeithiol â phosib;</p> <p>6. Adlewyrchu ar yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni gyda'r strategaeth a'i hadolygu'n flynyddol;</p> <p>7. Paratoi cynllun gweithredu pum mlynedd yn nodi sut y byddwn yn rhoi'r strategaeth ar waith bob blwyddyn.</p>
--	---

CRYNODEB ARIANNOL 2022/23

Mae gweithrediadau'r Cyngor yn parhau i wella o effeithiau'r pandemig Covid gydag incwm o logi Neuadd San Pedr, y felodrom ac o'r caeau rygbi a phêl-droed yn gwella. Roedd y Cyngor yn ffodus i elwa o grant cronfa Tlodi gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor Sir Caerfyrddin o £1,180 a gefnogodd y ddarpariaeth o "Warm Bank" ym Mhorthdy'r Parc, Caerfyrddin.

Praecept y Cyngor yw prif ffynhonnell incwm y Cyngor ac mae'n cynrychioli swm y dreth gyngor a delir gan aelwydydd yng Nghaerfyrddin sy'n cael ei ddyrrannu i'r Cyngor Tref. Cododd y praecept blynnyddol o £138.42 fesul cartref Band D gyfanswm o £788,855 i'r Cyngor Tref yn ystod 2022/23 (nid yw'r Cyngor Tref yn derbyn dim o drethi busnes). Derbyniodd incwm hefyd o ddarparu ei wasanaethau megis:

Mynwент Caerfyrddin: £56,726

Siop De Parc Caerfyrddin: £48,715

Parciau (gan gynnwys y felodrom): £10,624

Incwm arall a dderbyniwyd oedd £33,037 gan roi cyfanswm incwm ar gyfer 2022/23 o £937,956.

Yn ystod 2023/24 **gwariant y Cyngor** (gan gynnwys costau staffio) oedd:

Parciau a'r Siop De	-	£241,751	Goleuadau Stryd	-	£22,166
Mynwent	-	£161,851	Basgedi Crog	-	£6,788
Neuadd Ddinesig San Pedr	-	£100,089	Dinesig	-	£7,488
Rhandiroedd	-	£1,423	Gweinyddiaeth gyffredinol	-	£266,583

Grantiau	-	£10,460	Gwarian eraill	-	£6,423
Digwyddiadau	-	£27,872	CYFANSWM	-	£852,894

Mae'r Cyngor yn cadw **cronfa wrth gefn heb eu clustnodi** o £200,000 ar gyfer cyfyngau a thaliadau brys anrhagweledig.

Roedd gwariant ar **brosiectau cyfalaf** yn ystod 2022/23 yn cynnwys:

- Gosod toiled anabl yng nghyntedd Neuadd Ddinesig San Pedr - £1,675
- Trosi ardal storio yn ardal eistedd dan do yn y Siop De - £1,500
- Desg sain ddigidol newydd ar gyfer Neuadd Ddinesig San Pedr - £1,974
- Atgyweiriadau ar ôl i ddŵr ddod i mewn, Neuadd Ddinesig San Pedr - £15,551
- Profion i sicrhau diogelwch cerrig beddau yn y fynwent (blwyddyn 1 o 3) - £3,266
- Byrddau i orchuddio beddau - £372

Cynnydd yn erbyn Amcanion Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin

Amcanion Cynllun Sir Gaerfyrddin BGC	Camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref/Cymuned sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant	Sut mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi cael eu defnyddio i lunio'ch gweithgaredd? (Crynodeb yn Atodiad A)	Pa Nodau Llesiant cenedlaethol y mae'r gwaith hwn yn cefnogi (Crynodeb yn Atodiad B)
Arferion lach: Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maent yn gwneud dewisiadau iach am eu bywydau a'u hamgylchedd	1. Parciau Cyhoeddus ac Ardaloedd Chwarae	<p>Mae'r Cyngor Tref yn rheoli sawl parc cyhoeddus, ac mae'r rhain yn gyfleusterau cymunedol pwysig y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i hybu iechyd a ffitrwydd ac i wella lles ymdeimlad corfforol ac emosiynol pobl.</p> <p>Mae gan bob un o barciau cyhoeddus y Cyngor offer chwarae ac offer arall, ac mae'r prif barc yn Lôn Morfa yn darparu gofod ac offer ar gyfer pob cenhedaeth. Yn ystod 2022/23 gosodwyd offer chwarae hygrych ym Mharc Hinds a Pharc Penllwyn i hwyluso mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae HwbTywiHub, grŵp o wirfoddolwyr sy'n darparu cefnogaeth a gweithgareddau i bobl sydd efallai angen cefnogaeth emosiynol, yn prydlesu'r Pafiliwn yn Nhre Ioan ac yn darparu cefnogaeth i'r gymuned trwy eu gweithgareddau sy'n cynnwys gwelliannau i'r dref megis plannu a phaentio. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r grŵp hwn yn rheolaidd i gefnogi eu gwaith ac elwa o welliannau i'r dref yn gyfnewid.</p> <p>Fe fydd ardal eistedd ychwanegol dan do yn cael ei hagor yn y Siop De yr haf hwn.</p>	Cymru Ffyniannus Cymru lachach Cymunedau Cydlynol Cymru Fwy Cyfartal Cymru Hydwyth

	2. Felodrom Caerfyrddin	<p>Mae Felodrom Caerfyrddin yn cael ei reoli gan y Cyngor Tref a ganddo strategaeth i ymgysylltu gyda seiclwyr a chlybiau lleol ar hyd de a gorllewin Cymru, ac i weithio i wella iechyd a lles defnyddwyr a chreu fwy o gyfleoedd allanol ar gyfer seiclwyr, yn amrywio o ddechreuwyr i'r rhai ar y lefel elitaidd gan gynnwys defnyddwyr ag anableddau.</p> <p>Mae cais am grant wedi'i gyflwyno yn ceisio am arian i osod lampau newydd yn lle'r llifoleuadau yn y Felodrom a fydd y lampau newydd yn defnyddio llawer llai o ynni. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2024.</p>	Cymru Ffyniannus Cymunedau Cydlynol Cymru Fwy Cyfartal Cymru Hydwyth
	3. Ras Hwyl y Maer	<p>Dychwelodd Ras Hwyl y Maer ym mis Mai 2022 am y tro cyntaf wedi'r pandemig. Fe gymrodd cannoedd o gystadleuwr rhan yn yr amryw rasys ar gyfer pob oed gan lenwi'r dref â phobl ac o ganlyniad roedd o fudd i'r economi leol.</p> <p>Mae'r digwyddiad yn annog cyfranogiad mewn chwaraeon o oedran ifanc gan annog arferion iach a mwynhad o weithgarwch corfforol.</p>	Cymunedau Cydlynol Cymru Iachach Cymru Ffyniannus
	4. Cynhadledd Hinsawdd i Blant	<p>Ym mis Mawrth 2023, roedd Cynhadledd Hinsawdd y Plant yn Neuadd Ddinesig San Pedr yn llwyddiant yn dilyn ein hymdrehcion cychwynnol gael eu rhwystro gan y pandemig. Fodd bynnag, golygodd yr oedi ein bod yn gallu ymgysylltu â gwasanaethau Caerfyrddin Gyda'i Gilydd a Menter Gorllewin Sir Gâr i gyflwyno digwyddiad gwych yn canolbwytio ar yr hinsawdd ar gyfer plant ysgolion cynradd ac uwchradd y dref a'r cyffiniau.</p> <p>Yn ogystal ag addysgu plant am newid hinsawdd fe'i alluogodd ni fel Cyngor i gasglu negeseuon gan bobl ifanc Caerfyrddin a fydd yn siapio sut y gallwn weithredu mewn modd mwy cynaliadwy ar gyfer eu dyfodol.</p>	Cymru Hydwyth Cymunedau Cydlynol

	5. Gwobrau Chwaraeon	Ym mis Ionawr 2023 nodwyd dychweliad o Wobrau Chwaraeon Cyngor y Dref i ddathlu cyflawniad chwaraeon yn y dref. Roedd y noson yn gyfle i ddathlu pobl ifanc a'u llwyddiannau chwaraeon a chyd nabod gwaith caled yr hyfforddwyr a'r gwirfoddolwyr sydd o'u cwmpas. Mae cymeradwyaeth fel hyn yn mynd ymhell i annog arferion iach o oedran ifanc ac yn annog cyfranogiad mewn chwaraeon.	Cymru lachach Cymunedau Cydlynol
Amcanion Cynllun Sir Gaerfyddin BGC	Camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref/Cymuned sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant	Sut mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi cael eu defnyddio i lunio'ch gweithgaredd? (Crynodeb yn Atodiad A)	Pa Nodau Llesiant cenedlaethol y mae'r gwaith hwn yn cefnogi (Crynodeb yn Atodiad B)
Ymyrraeth Gynnar: I sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr amser iawn; pan a phryd fydd ei angen arnynt	1. Unigrwydd	<p>Ym mis Medi 2021 lansiodd y Cyng. Miriam Moules ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid â diddordeb i geisio gwella lefel y gefnogaeth i bobl unig yng Nghaerfyddin. Yn ystod 2022/23 parhaodd y gwaith hwn gyda'r Cyng. Moules fel Maer a daeth i ben gyda digwyddiad yn Neuadd Ddinesig San Pedr yn ystod mis Hydref 2022. Daeth sawl sefydliad a phartïon â diddordeb i'r diwrnod 'Cysylltiad Cymunedol' i greu cysylltiadau â'i gilydd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol ac i gysylltu â'r cyhoedd.</p> <p>Datblygodd hyn dros fis oedd y gaeaf i fod yn ofod cynnes ym Mhorthdy Parc Caerfyddin i gefnogi pobl unig yn y gymuned a'r rhai sy'n cael trafferth talu biliau'r cartref. Cynhalwyd y sesiwn hon gan Gaerfyddin Gyda'i Gilydd yn ystod tri mis cyntaf 2023. Mae hwn yn sefydliad cymdeithasol cymharol newydd a chynhwysol sy'n ymwneud â hinsawdd ac ecoleg. Rhoddwyd cyngor a chymorth ymarferol ar effeithlonrwydd ynni i leihau costau a lleihau'r defnydd o ynni.</p>	Cymru Ffyniannus Cymru Fwy Cyfartal Cymru Hydwyth Cymru lachach Cymunedau Cydlynol Cymru Gyfrifol Fyd-eang

Amcanion Cynllun Sir Gaerfyddin BGC	Camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref/Cymuned sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant	Sut mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi cael eu defnyddio i lunio'ch gweithgaredd? (Crynodeb yn Atodiad A)	Pa Nodau Llesiant cenedlaethol y mae'r gwaith hwn yn cefnogi (Crynodeb yn Atodiad B)
<p>Cysylltiadau cryf: Pobl, lleoedd a sefydliadau sydd â chysylltiadau cryf sy'n gallu addasu i newid</p>	1. Digwyddiadau Dinesig Blynnyddol	<p>Eleni dychwelodd seremoni Urddo'r Maer yn y Neuadd Sirol ar ôl dwy flynedd o gynnal y seremoni ar-lein. Etholwyd y Cyng. Miriam Moules yn Faer Caerfyddin (ac felly yn gadeirydd y Cyngor Tref), gyda'r Cyng. Wyn Thomas fel Dirprwy Faer a'r Cyng. Emlyn Schiavone yn Siryf y Dref.</p> <p>Digwyddiad arall a ddychwelodd am y tro cyntaf ar ôl y pandemig oedd Ras Hwyl y Maer, a gynhalwyd ar Wyl Banc Calan Mai. Denodd y digwyddiad gannoedd o gystadleuwyr a gyda'u cefnogwyr roedd miloedd yn y dref yn dod ag awyrgylch gwych i Gaerfyddin am y diwrnod.</p> <p>Dilynwyd hyn ym mis Tachwedd gan ddigwyddiadau Coffa Dinesig blynnyddol a gynhelir gan y Cyngor Tref am y tro cyntaf eleni mewn partneriaeth ag Eglwys San Pedr.</p> <p>Cynhalwyd y digwyddiadau cynnau goleuadau Nadolig a cheirw traddodiadol yn ystod mis Tachwedd ac fe'i mynchywyd unwaith eto gan filoedd o bobl o dde-orllewin Cymru. Roedd y digwyddiad hwn yn rhad ac am ddim a oedd yn galluogi pawb i ymuno yn y dathliadau ac roedd y digwyddiad yn gwbl ddwyieithog.</p> <p>Cynhalwyd y dathliadau blynnyddol sy'n gysylltiedig â Dydd Gŵyl Dewi unwaith eto yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth ac mae hwn yn ddigwyddiad cynyddol sy'n edrych i ehangu yn ystod 2024.</p>	Cymunedau Cydlynol Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus Cymru Hydwyth
	2. Rhannu Gwybodaeth a Gweithio mewn partneriaeth	Mae'r Cyngor Tref yn gweithredu fel ffynhonnell hanfodol a chyfathrebwr gwybodaeth ar draws cymunedau lleol, gan ddefnyddio ei lwyfannau cyfryngau cymdeithasol amrywiol a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a grwpiau lleol. Defnyddir y rhain i gyfleo negeseuon allweddol i'r gymuned i hybu iechyd	Cymru Fwy Cyfartal Cymunedau Cydlynol Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus

		<p>a lles a hefyd i amlygu'r digwyddiadau a gweithgareddau niferus sy'n cymryd lle o fewn y gymuned leol, a thrwy hynny yn creu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd.</p> <p>Mae'r Cyngor Tref yn ymfalchiö mewn gweithio mewn partneriaeth a galluogi eraill i ddarparu gwasanaethau allweddol sydd yn eu tro yn galluogi'r Cyngor Tref i cyflawni rhai o'n nodau ac amcanion. Mae ein gwaith gyda Chaerfyrddin Gyda'i Gilydd i ddarparu'r gofod cynnes yn ystod y gaeaf, a gyda HwbTywiHub i wella golwg canol y dref yn enghreifftiau da o hyn.</p>	
	3. Ysgolion, Colegau a Grwpiau a Sefydliadau Cymunedol eraill	<p>Mae'r Cyngor wedi cadw ei gysylltiadau cryf ag ysgolion a cholegau lleol.</p> <p>Gwahoddwyd pob ysgol gynradd leol a'r ddwy ysgol uwchradd i'n Cynhadledd Hinsawdd ym mis Mawrth. Cafodd ysgolion eu cynnwys hefyd yn nathliadau a pharêd Dydd Gŵyl Dewi.</p> <p>Roedd cynrychiolaeth dda o grwpiau lleol i bobl ifanc hefyd yng ngorymdaith Sul y Cofio.</p>	Cymunedau Cydlynol Cymru Fwy Cyfartal Cymru Ffyniannus Cymru Hydwyth Cymru Iachach Cymru Gyfrifol Fyd-eang
	4. Digwyddiadau Gŵyl Dewi	Ers 2016 mae cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol wedi eu cynnal yng Nghaerfyrddin yn ystod Chwefror a Mawrth i ddathlu bywyd nawddsant Cymru. Wedi'i gydlynú gan Gyngor y Dref, dros 30 o ddigwyddiadau diwylliannol yn arwain at ac o gwmpas Dydd Gŵyl Dewi.	Cymru Ffyniannus Cymunedau Cydlynol Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus
	5. Digwyddiadau ym Mharc Caerfyrddin dros yr Haf	Yn ystod haf 2022 cynhaliwyd rhaglen o ddigwyddiadau ym Mharc Caerfyrddin a darparwyd adloniant lleol i'r cyhoedd fwynhau tra yn y parc. Daeth hyn i ben gyda'r Maer yn cynnal digwyddiad 'Diolch o Galon' i ddiolch i'r gymuned, ac yn enwedig i'r gwirfoddolwyr a oedd wedi cefnogi Cyngor y Dref i roi cymorth ymarferol i'r gymuned yn ystod y pandemig.	Cymunedau Cydlynol

		Hefyd fe gynhaliodd y Maer Bicnic Tedi Bêrs yn y parc ym mis Awst 2022 i drigolion iau'r dref ei fwynhau. Daeth hyn â'r gymuned ynghyd ar gyfer diwrnod o hwyl yn y parc gydag adloniant a chystadlaethau hwyliog.	
Amcanion Cynllun Sir Gaerfyrddin BGC	Camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref/Cymuned sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant	Sut mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi cael eu defnyddio i lunio'ch gweithgaredd? (Crynodeb yn Atodiad A)	Pa Nodau Llesiant cynedlaethol y mae'r gwaith hwn yn cefnogi (Crynodeb yn Atodiad B)
Pobl a Lleoedd Ffyniannus: Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl a lleoedd yn rhannau trefol a gwledig ein sir	1. Cefnogi'r economi leol	Mae Grŵp Adfer Canol y Dref yn parhau i gyfarfod bob pythefnos i sicrhau gweithio cydgysylltiedig yn y dref. Mae'r grŵp yn rhannu'r gwaith o gydlynw digwyddiadau a diweddarriadau ar ddatblygiadau allweddol er mwyn sicrhau bod y cyfathrebu'n llifo rhwng y gwahanol bartneriaid. Mae cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth hefyd yn cael eu nodi yn y grŵp hwn er budd y dref.	Cymru Ffyniannus Cymru Hydwyth Cymru Iachach Cymru Fwy Cyfartal Cymunedau Cydlynol Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus
	2. Fforwm Adfywio Caerfyrddin	Mae Fforwm Adfywio Caerfyrddin yn grŵp a reolir gan y Cyngor Sir o randdeiliaid allweddol sy'n gyfrifol am ddatblygiad economaidd y dref. Mae nifer o gynghorwyr a swyddogion yn aelodau o'r Fforwm a'i amrywiol is-grwpiau, pob un ohonynt yn cydweithio i wella ffyniant Caerfyrddin.	Cymru Ffyniannus
	3. LocalMotion	Cysniad hollol newydd yw LocalMotion sy'n cynnwys grŵp o fuddsoddwyr preifat sydd wedi nodi Caerfyrddin fel un o 6 lle ar draws y DU (dyma'r unig leoliad yng Nghymru) a fydd yn elwa o £350,000 cychwynnol (buddsoddiad deunaw mis yn y dref o Chwefror 2022 i Fedi 2023). Bydd yn cael ei ddilyn gan fuddsoddiad wyth mlynedd tan 2032. Mae nifer fawr o rhanddeiliaid yn aelodau o'r grŵp gan gynnwys Cyngor y Dref y ac mae symiau sylweddol o arian wedi'u clustnodi i'w buddsoddi ar brosiectau gwahanol. Datblygydd 'Llais Caerfyrddin' ac mae'n brosiect ymgysylltu â threfi strategol sy'n cysylltu â phreswylwyr o ystadau tai, grwpiau rhwng cenedlaethau, a sefydliadau.	

		<p>Ymgynghori yw amcan allweddol y prosiect hwn, gan sicrhau bod yr ymgysylltu hwn yn awdurdodi gwaith LocalMotion yn y gymuned yn y dyfodol. Ymwelodd ‘Llais Caerfyrddin’ â chymunedau ledled y dref ac ymgysylltodd i ddatblygu syniad o'r hyn y mae pobl ei eisai ar gyfer Caerfyrddin. Mae ‘Caru Caerfyrddin’ yn parhau i weithio gyda disgylion ysgol a phobl ifanc ledled y dref i nodi beth sydd ei angen.</p>	
	<p>4. Ardal Gyhoeddus - Ymddangosiad canol y dref</p>	<p>Mae Cyngor y Dref yn parhau i chwarae rôl flaenllaw yn sicrhau bod y dref yn edrych ar ei orau ar gyfer y preswylwyr ac ymwelwyr. Mae'n gyfrifol am yr holl barciau lleol a mwyafir o'r arddangosfeydd blodau yng nghanol y dref. Mae ganddo hefyd rôl o ran amlygu a chydlynwyr am faterion y tu allan i'w gwmpas cyfrifoldeb trwy'r Grŵp Adfer Canol y Dref a'i aelodaeth o ls-grŵp yr Amgylchedd, Priffyrrd a Chludiant y Fforwm Adfywio'r Dref.</p> <p>Mae'r Cyngor y Dref yn darparu'r cynllun basgedi crog ac arddangosfeydd blodau eraill sy'n bywiogi golwg y dref ac yn helpu i ddenu ymwelwyr a siopwyr i'r dref o dde-orllewin Cymru a thu hwnt.</p> <p>Arweiniodd Cyngor y Dref ymgyrch ‘Glanhau'r Gwanwyn’ a arweiniodd at Gyngor y Dref yn gweithio'n effeithiol iawn gyda'i bartneriaid allweddol o Gyngor Sir Caerfyrddin a llawer iawn o wirfoddolwyr a sefydliadau eraill i gynnal ymgyrchoedd codi sbwriel a glanhau strydoedd. Mae hyn wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf ac mae llawer o wirfoddolwyr yn parhau i gynnal sesiynau codi sbwriel ar draws yr ardal leol. Bu'r fenter yn llwyddiannus iawn, a bwriedir parhau â'r math hwn o ymgyrch â ffocws bob blwyddyn.</p>	<p>Cymru Ffyniannus Cymunedau Cydlynol</p>

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6
Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau
Adrodd ar Adran 6 - Rhagfyr 2022

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6

**Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau
2022**

Enw y Cyngor Tref neu Gymuned: Cyngor Tref Caerfyddin

Cyflwyniad a'r Cyd-destun

Mae Cyngor Tref Caerfyddin yn darparu ystod o wasanaethau i'r gymuned leol sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth. Mae'r Cyngor yn gwasanaethu ardal Caerfyddin a'i phoblogaeth o tua 14,000 o drigolion. Mae ganddo 18 o gynghorwyr, sy'n gwasanaethu Wardiau Gogledd, De a Gorllewin Caerfyddin. Praesept blynnyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23 yw £788,885.

Mae Cyngor Tref Caerfyddin yn gyfrifol am lawer o wasanaethau yn y dref, gan gynnwys:

- Parc Caerfyddin, sy'n cynnwys y siop de, y felodrom a'r maes rygbï;
- Parciau cyhoeddus eraill yng Nghaerfyddin gan gynnwys Parc Tre Ioan, Parc Penllwyn, Parc Hinds a'r mannau chwarae yn Russell Terrace, Maes y Wennol ac Allt Ioan;
- Y rhan fwyaf o lwybrau cyhoeddus y dref;
- Neuadd Ddinesig San Pedr;
- Mynwent Caerfyddin;
- Cynllun basgedi crog y dref ac arddangosfeydd blodau eraill;
- Darparu grantiau yn benodol ar gyfer prosiectau a mentrau sy'n hyrwyddo neu'n cefnogi'r amgylchedd neu gynaliadwyedd.

Cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Gweithredu Datblygu Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd' am y tro cyntaf ym mis Medi 2018 ac mae ganddo hefyd Is-bwyllgor o'r Cyngor – Pwyllgor Sian Johnston – sy'n ymdrin yn benodol â materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd. Mae hwn yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Tref ar y materion hyn

Mae'r cyngor yn darparu cefnogaeth gymunedol trwy ei Swyddog Lles a Digwyddiadau Cymunedol ac mae'n hyrwyddo'r egwyddor o gynaliadwyedd a bioamrywiaeth drwy fynd ar drywydd cynaliadwyedd lle bynnag y bo modd.

Mae Cyngor Tref Caerfyddin yn dod o dan nawdd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn flynyddol ar ei ddyletswydd llesiant.

Adroddiad Gweithredu

Camau gweithredu i:	Tachwedd 2022	Wedi eu monitro gan:
-cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	Mae Gweithgor Amgylcheddol Siân Johnston wedi'i sefydlu i sicrhau bod y Cyngor yn ystyried ac yn gweithredu ystyriaethau amgylcheddol yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd a'u cynlluniau tymor hwy.	Cyngor Tref Caerfyddin
-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd	Bydd cynhadledd hinsawdd i blant, a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Mawrth 2020, bellach yn cael ei chynnal ym mis Mawrth 2023. Mae hon yn cael ei threfnu a'i chynnal gan Gyngor Tref Caerfyddin yn Neuadd Ddinesig San Pedr.	Cyngor Tref Caerfyddin
-diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd	Mae rhannau o'n parciau a'n mannau gwyrdd wedi'u dynodi i'w gadael heb eu torri er mwyn cadw cynefinoedd. Ystyrir ceisiadau cynllunio yng nghyddestun yr effaith amgylcheddol. Mae diogelu cynefinoedd, datblygu cartrefi cynaliadwy a phlannu datblygiadau newydd yn ystyriaethau rheolaidd.	Cyngor Tref Caerfyddin
-adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	Bydd y Cyngor yn cynnwys blychau ystlumod ar yr Eisteddol yn y parc i amddiffyn yr anifail bregus hwn, sydd â phedair rhywogaeth dan fygythiad. Mae'r Cyngor wedi cyfeirio prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Cadwch Gymru'n Daclus at grwpiau cymunedol lleol ac wedi cynnig mannau ar gyfer y prosiectau hyn. Mae gardd glöynnod byw wedi'i gosod ym Mharc Caerfyddin a bydd prosiectau newydd yn cael eu hystyried yn 2023.	Cyngor Tref Caerfyddin
-mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â	Bydd y rhaglen plannu coed (150 o goed a blannwyd ym Mynwent Caerfyddin) yn helpu i leihau tocsinau aer a nwyon niweidiol.	Cyngor Tref Caerfyddin

<p>rhywogaethau goresgynol</p>	<p>Mae cynllun basgedi crog y Cyngor (160 basgedi) a chynwysyddion planhigion a blodau eraill yn darparu cynefin naturiol i rai rhywogaethau a hefyd yn gwella ymddangosiad ffisegol yr amgylchedd lleol.</p> <p>Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynhyrchu ei gynllun pum mlynedd sy'n cynnwys caffael cerbydau trydan a gosod gwefrydd trydan yn y depo fel rhai o'r nodau.</p> <p>Mae dichonoldeb darparu pwyntiau gwefru trydan ar gyfer e-feiciau ym Mharc Caerfyrddin hefyd yn cael ei ystyried.</p>	
<p>-defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth</p>	<p>Bydd y gynhadledd hinsawdd a gynhelir ym mis Mawrth 2023 yn rhoi cyfleoedd i rannu arfer da.</p> <p>Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â chynghorau lleol eraill mewn digwyddiadau rhwydweithio rheolaidd fel Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol Gorllewin Cymru, gan helpu pawb drwy rannu gwybodaeth a phrofiadau.</p>	<p>Cyngor Tref Caerfyrddin</p>
<p>-cefnogi capaciti ac/neu sefydliadau eraill</p>	<p>Mae Cyngor Tref Caerfyrddin wedi sefydlu cysylltiadau gyda 'Carmarthen Together', grŵp lleol gyda'r nod o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae gan y Cyngor hefyd berthynas waith dda gyda HwbTywiHub sy'n cefnogi lles meddwl dynion. Ymhlið eu gweithgareddau mae plannu peillwyr mewn ardaloedd o'r dref ar ran y Cyngor.</p> <p>Mae 'Grantiau Fferm Sian Johnston/Red Solar Farm' yn helpu i ddarparu nawdd a chefnogaeth ar gyfer pob math o brosiectau amgylcheddol a chynaliadwyedd a gyflawnir gan wahanol sefydliadau lleol.</p>	<p>Cyngor Tref Caerfyrddin</p>

Arolwg o ddyletswydd Adran 6

- Beth sydd wedi gweithio'n dda? Beth fu'r rhwystrau? Beth fyddwch yn ei newid?

Mae gweithio gyda grwpiau cymunedol fel HwbTywiHub a chreu cysylltiadau newydd gyda Caerfyrddin ar y Cyd wedi bod yn hynod fuddiol. Mae rhannu adnoddau, arbenigedd, a'r ewyllys cyffredinol i wneud daioni eisoes wedi dod â gwir bethau cadarnhaol i'r amgylchedd a bydd hyn yn tyfu yn y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf.

Roedd y pandemig coronafeirws yn rhwystr enfawr a olygai fod yn rhaid i'r Cyngor ganslo'r Gynhadledd Hinsawdd Plant a drefnwyd ar gyfer Mawrth 2020. Mae'n dda nodi y bydd hon yn cael ei chynnal ym mis Mawrth 2023.

Roedd y pandemig hefyd yn rhwystr i grwpiau lleol allu gweithio ar brosiectau ond yn ffodus mae hyn wedi ailddechrau nawr ac mae cysylltiadau cryfach wedi'u gwneud ar gyfer y dyfodol

- Sut a phryd fydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 wedi'i adolygu?

Bydd dyletswydd a6 yn cael ei monitro'n flynyddol fel rhan o adroddiad blynnyddol y Cyngor. Bydd cynnwys y cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Weithgor Siân Johnston a'i adolygu'n fwy ffurfiol bob tair blynedd.

Carmarthen Town Council Annual Report

Civic Year 2022-23

Introduction

Welcome to the first Annual Report of the 2022-2027 council term. During the year six new councillors have joined the Town Council, five from the election in May 2022 and one co-option in July 2022. We would like to take this opportunity to thank the six councillors that left during 2021/22 for their service to community and their contribution to the Town Council. We also said farewell to our Clerk during 2022, Mr Alun Harries retired after seven years of service and our best wishes are also extended to him for his retirement.

The last year has been another challenging one for the community not least because of energy price rises and the cost-of-living crisis. Our efforts to support the community during these times is even more important than usual. Adding to the strength of community relationships built up most recently during the COVID-19 pandemic, the Town Council is working more closely with community partners and Carmarthenshire County Council to improve quality of life for residents of Carmarthen.

The focus for Council during 2022/23 was on supporting the community to cope with the pressures faced due to the cost-of-living crisis and the continued recovery from the Covid-19 pandemic. The Town Mayor, Cllr. Miriam Moules led a loneliness initiative working with local partners to create better connections in the town to support lonely and vulnerable people. The work culminated in a community connection day at St Peter's Civic Hall in October 2022, which created links between voluntary groups and organisations and provided a warm welcome to the public. This warm welcome was continued during the winter months at our warm space in the Park Lodge, which was well attended by the public.

The Town Council agreed a new strategy during the year and consulted with the public to create a five-year action plan to implement the strategy. This will become the focus for future action and progress will be reported in future annual reports.

